Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## TAFLEN WYBODAETH ECO4 FLEX A GBIS FLEX I DDEFNYDDWYR

### Beth yw ECO4?

Mae Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni 4 (ECO4) yn gynllun effeithlonrwydd ynni Llywodraeth y DU, wedi'i weinyddu gan Ofgem (Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan). Lansiwyd ECO4 yn 2022 a bydd yn rhedeg tan fis Mawrth 2026. Prif amcan ECO4 yw lleihau tlodi tanwydd trwy wella'r stoc dai lleiaf effeithlon o ran ynni sy'n cael ei feddiannu gan aelwydydd incwm isel, bregus a thlawd o danwydd, a thrwy hynny helpu i fodloni ymrwymiadau tlodi tanwydd a charbon sero net y Llywodraeth. Mae ECO4 yn canolbwyntio ar ôl-ffitio tŷ cyfan, gyda'r nod o annog gosod inswleiddio ac ynni adnewyddadwy, yn ogystal ag uwchraddio systemau gwresogi aneffeithlon.

O dan ECO4 mae'n ofynnol i gyflenwyr ynni leihau costau gwresogi ar gyfer aelwydydd incwm isel ac agored i niwed trwy ariannu mesurau effeithlonrwydd ynni, inswleiddio a gwresogi. Mae cwmnïau ynni yn gweithio gyda gosodwyr trydydd parti i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan ECO4 a'r cwmnïau ynni sydd i benderfynu pa fesurau y maent yn dewis eu hariannu, lefel y cyllid y maent yn ei ddarparu a'r gosodwr y maent yn dewis gweithio ag ef.

### Beth yw ECO4 Flex?

Mae 'Cymhwysedd Hyblyg ECO4' (ECO4 Flex) yn fecanwaith atgyfeirio aelwydydd o fewn y Cynllun ECO4 ehangach. Gall cynghorau gymryd rhan yn wirfoddol yn ECO4 Flex i nodi aelwydydd cymwys nad ydynt yn cael budd-dal prawf modd (dull safonol cynllun ECO4 i gyflawni cymhwysedd) ond sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd a amlinellir isod; mae hyn yn unol â datganiad-o-fwriad-eco4-cymhwysedd-hyblyg-fersiwn-4.pdf y Cyngor.

### Beth yw Cynllun Inswleiddio Prydain Fawr (GBIS)?

Mae GBIS yn parhau â ffocws ECO4 ar leihau tlodi tanwydd a biliau ynni ond ei nod yw gosod mesurau effeithlonrwydd ynni yn gyflym i gronfa ehangach o aelwydydd yn y cartrefi lleiaf effeithlon. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflwyno mesurau sengl (yn hytrach nag ôl-ffitio tŷ cyfan) ac mae'n cynnwys y gwahanol fathau o insiwleiddio megis inswleiddio atig ac inswleiddio waliau solet. Mae'r cynllun yn rhedeg tan 31 Mawrth 2026.

### Beth yw GBIS Flex?

Drwy feini prawf cymhwysedd y prif gynllun, gall aelwydydd fod yn gymwys os ydynt yn derbyn budd-daliadau penodol. Mae elfen cymhwysedd hyblyg (Flex) y cynllun i'w defnyddio gan Awdurdodau Lleol ac mae'n darparu llwybrau amgen i nodi aelwydydd cymwys. Mae hyn yn galluogi Awdurdodau Lleol sy'n cymryd rhan i atgyfeirio aelwydydd y maent yn ystyried eu bod yn byw mewn tlodi tanwydd neu ar incwm isel ac yn agored i effeithiau byw mewn cartref oer, ond nad ydynt efallai'n gymwys ar gyfer y cynllun drwy'r meini prawf cymhwyster safonol.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cymryd rhan yn ECO4 Flex a GBIS Flex ac felly gall wneud atgyfeiriad ar y cyd ar gyfer ECO4 Flex a Great British Insulation Scheme Flex, gan fod y meini prawf cymhwysedd yn debyg. Os bydd cyflenwr yn penderfynu bwrw ymlaen â'r atgyfeiriad, bydd asesydd ôl-osod yn pennu pa rai o'r cynlluniau sy'n addas, a'r mesurau penodol a fyddai o fudd i'r eiddo.

### Rôl y Cyngor

Nid yw'r Cyngor yn gyfrifol am gyrchu cyllid cynllun ECO4/GBIS nac am drefnu gosod unrhyw fesurau. Cyngor Sir Ceredigion sy'n gyfrifol am benderfynu pwy fydd yn gymwys ar gyfer ECO4/GBIS Flex yn y sir. Bydd hyn yn cael ei sefydlu ar sail y wybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen gais ynghyd â'r dystiolaeth ategol.

### Meini Prawf Cymhwysedd

Er mwyn elwa ar ECO4 Flex, rhaid i chi fod yn berchen ar eich cartref eich hun neu gael caniatâd eich landlord. Mae'n bwysig nodi mai rhwymedigaeth cyflenwr yw ECO4 ac nid cynllun grant, ac felly gall cwmnïau neu

osodwyr gwahanol ddarparu gwahanol lefelau neu fathau o gymorth tuag at osod mesurau effeithlonrwydd ynni neu wresogi.

Er mwyn bod yn gymwys **rhaid** i eiddo fod yn eiddo domestig preifat a feddiannir (naill ai cartrefi perchen-feddiannaeth neu gartrefi yn y sector rhentu preifat). Rhaid i'r eiddo a'r aelwyd lynu at o leiaf un o'r tri llwybr sydd ar gael a amlinellir isod (Diffiniadau: TPY = Tystysgrif Perfformiad Ynni).:

**<u>Llwybr 1 – Incwm Isel</u>**

TPY bandiau D-G aelwydydd perchen-feddiannaeth a bandiau E-G aelwydydd yn y sector rhentu preifat sydd â chyfanswm cyfunol incwm blynyddol gros o bob ffynhonnell yn llai na £31,000 (dyma gyfanswm cyfunol incwm yr aelwyd, gan gynnwys pob person 18+ oed sy'n byw yn y cyfeiriad hwnnw, megis lletywyr a pherthnasau oedrannus, ac ati, a rhaid iddo gynnwys yr holl incwm a dderbynnir gan bawb sy'n byw yn yr aelwyd, gan gynnwys budd-daliadau heb brawf modd, llog o gynilon, taliadau costau byw, ac ati).

**<u>Llwybr 2 – Targedu Procsi</u>**

TPY bandiau E-G aelwydydd perchen-feddiannaeth ac aelwydydd yn y sector rhentu preifat sy'n bodloni cyfuniad o ddau o'r procsiaid canlynol (ni ellir defnyddio procsiaid 1 a 3 gyda'i gilydd; nid yw procsi 5 ar gael oherwydd nid yw Cyngor Sir Ceredigion yn rhedeg cynllun sy'n bodloni'r meini prawf):

**Procsi 1 (ni ellir ei ddefnyddio gyda Phrocsi 3):** Mae'r eiddo yn narpariaeth Cymru LSOA 1-3 ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 (mae'r eiddo yn LSOA Aberteifi Teifi, Aberteifi Rhyd-Y-Fuwch neu Aberystwyth Penparcau 1: cyfeiriwch at fapiau LSOA sydd ar gael trwy Gyllid ECO4 Flex - Mesurau - Cyngor Sir Ceredigion <https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/tai/gwybodaeth-a-chymorth-ariannol/cynlluniau-effeithlonrwydd-ynni/cyllid-hyblygrwydd-eco/>

**Procsi 2:** Mae rhywun yn yr aelwyd yn gallu hawlio gostyngiad Treth y Cyngor ar sail incwm isel.

**Procsi 3 (ni ellir ei ddefnyddio gyda Phrocsi 1):** Mae rhywun yn yr aelwyd yn agored i'r oerfel am un o'r rhesymau canlynol

- pobl â chyflyrau cardiofasgwlaidd
- pobl â chyflyrau anadlol (yn arbennig, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint ac asthma plentyndod)
- pobl â phroblemau iechyd meddwl
- pobl ag anableddau
- pobl hŷn (65 oed a hŷn)
- aelwydydd â phlant ifanc (o fabanod newydd-anedig i blant oedran ysgol)
- menywod beichiog

**Procsi 4:** Plentyn yn yr aelwyd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim oherwydd incwm isel.

**Procsi 5:** Ddim ar gael yng Ngheredigion

**Procsi 6:** Mae rhywun yn yr aelwyd wedi cael ei atgyfeirio at yr awdurdod lleol am gymorth gan ei gyflenwr ynni neu Gyngor ar Bopeth oherwydd ei fod yn ei chael hi'n anodd talu ei filiau trydan a/neu nwy.

**<u>Llwybr 3 – Atgyfeiriadau'r GIG</u>**

TPY bandiau D-G aelwydydd perchen-feddiannaeth a bandiau E-G aelwydydd yn y sector rhentu preifat sydd wedi'u nodi a'u hatgyfeirio gan feddyg teulu, Bwrdd Iechyd neu ymddiriedolaeth y GIG, gan fod rhywun yn yr aelwyd yn dioddef o afiechyd difrifol neu hirdymor oherwydd un o'r cyflyrau isod, ac mae byw mewn cartref oer yn effeithio'n andwyol ar ei iechyd.

- cyflwr cardiofasgwlaidd
- clefyd anadlol
- imiwnoataliedig
- symudedd cyfyngedig

Darparwch lythyr gan y person perthnasol uchod yn cadarnhau'r cyflwr iechyd gyda'r ffurflen gais. Fel arall, gall templed llythyr atgyfeirio'r GIG sydd i'w weld ar ein tudalen we yma: Cyllid ECO4 Flex - Mesurau - Cyngor Sir Ceredigion gael ei gwblhau gan y person perthnasol.

**Pa fesurau effeithlonrwydd ynni allai gael eu hariannu o dan ECO4?**

Bydd y mesurau effeithlonrwydd ynni y caniateir eu gosod mewn aelwyd cymwys yn cael eu pennu gan y darparwr/asiant/gosodwr ECO. Mae enghreifftiau o'r mesurau y gellir eu gosod o dan ECO4 Flex yn cynnwys inswleiddio waliau solet, inswleiddio waliau ceudod, insiwleiddio ystafell yn y to, inswleiddio atig, inswleiddio to fflat, uwchraddio gwresogydd storio trydan, gwres canolog am y tro cyntaf i bwmp gwres ffynhonnell aer, uwchraddio boeleri o olew, LPG a thanwydd solet i bwmp gwres ffynhonnell aer, a phaneli solar ffotofoltäig. Mae ECO4 Flex yn defnyddio dull ôl-osod tŷ cyfan ac yn annog dull aml-fesur, oherwydd y Gofynion Sylfaenol (MR) o ran faint o welliannau effeithlonrwydd ynni a wneir ar eiddo. Rhaid gwella eiddo gyda bandiau TPY cychwynnol F a G i TPY D, tra bod yn rhaid gwella eiddo gyda bandiau TPY E a D cychwynnol i TPY C. Lle mae cyllid ar gael, mae aelwydydd cymwys felly'n debygol o dderbyn mesurau lluosog lle mae'n bosibl ac yn gost-effeithiol gwneud hynny.

**A oes angen caniatâd cynllunio a chaniatâd arall arnaf ar gyfer gosod mesurau effeithlonrwydd ynni?**

Efallai y bydd angen caniatâd amrywiol arnoch i gael effeithlonrwydd ynni a gwaith arall yn eich cartref. **Dylai defnyddiwr/perchennog/landlord sicrhau bod ganddynt y rheoliadau adeiladu, cynllunio a chaniatâd amgylcheddol cywir cyn i unrhyw waith ddechrau yn yr eiddo.** Nid cyfrifoldeb y Gwasanaeth Tai yw hyn wrth asesu eich cymhwysedd ar gyfer ECO4/GBIS Flex. Cysylltwch â Gwasanaeth Cynllunio a Rheoli Adeiladu'r Awdurdod Lleol am ragor o wybodaeth a chyngor dros y ffôn: 01545 572135 neu drwy'r post: Cynllunio Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3UE.

**A yw cyllid ar gael bob amser ac a yw mesurau wedi'u hariannu'n llawn?**

Nid yw cymhwyster ar gyfer ECO4 yn gwarantu bod cyllid ar gael. Mae'r cyllid sydd ar gael a faint o arian sydd ar gael yn cael ei bennu gan y darparwyr/asiantau ECO a'u cyllidwyr. Gallai penderfyniadau gan gyflenwyr ynni a darparwyr/asiantau ECO ynghylch a ddylid gosod mesur dibynnu ar a) yr arolwg a gynhelir gan gyflenwyr, neu eu hasiantau/contractwyr a chyfrifiad costau gosod a gyfrifwyd; b) yr arbedion ynni y gellir eu cyflawni ar gyfer eiddo; c) a yw cyflenwyr wedi cyrraedd, neu'n agos at gyrraedd, eu targedau; ac ch) ystyriaethau masnachol eraill. Bydd angen cynnal asesiad SAP neu RdSAP yn eich cartref, ac efallai y bydd canlyniad yr asesiad hwn yn effeithio ar gymhwysedd ar gyfer y cynllun.

**Sut i wneud cais**

Dylai aelwydydd sy'n dymuno gwneud cais am gyllid ECO4 Flex gysylltu ag un o ddarparwyr/asiantau ECO4 Flex cymeradwy Cyngor Sir Ceredigion (gweler isod) a fydd yn hwyluso'r broses ymgeisio. Nid yw'r Cyngor yn derbyn ceisiadau yn uniongyrchol gan gartrefi. Sylwch nad yw'r Cyngor yn cymeradwyo unrhyw gyflenwr ynni penodol, asiant grant, gosodwr neu gwmni sy'n gysylltiedig â chymhwyso neu osod grantiau neu gynhyrchion cynllun ECO4.

Mae'r rhestr o ddarparwyr/asiantau cymeradwy'r Cyngor a all ddarparu mesurau effeithlonrwydd ynni o dan ECO4 Flex ar gael yn y ddogfen Rhestr o Osodwyr / Darparwyr ECO4 / GBIS Flex Cymeradwy (eco4-gbis-flex-approved-providers-welsh.pdf.) O'r rhestr gallwch ddewis y darparwr yr hoffech wneud cais drwyddo. Fel arall, gallwch ffonio'r Gwasanaeth Tai ar 01545 572105 i ofyn am gopi papur.

Mae'n ofynnol i'r darparwr/asiant cymeradwy gasglu a chyflwyno tystiolaeth o'ch incwm a manylion perthnasol eraill (gan gynnwys manylion personol) i Gyngor Sir Ceredigion fel y gellir gwneud asesiad ynghylch eich cymhwysedd ar gyfer ECO4 Flex. Nid oes unrhyw rwymedigaeth arnoch i ddarparu'r wybodaeth hon ond drwy wneud hynny rydych yn rhoi eich caniatâd i rannu'r wybodaeth â Chyngor Sir Ceredigion. Cyfeiriwch at Hysbysiad Preifatrwydd ECO4/GBIS Flex y Cyngor sy'n esbonio sut mae data personol yn cael ei ddefnyddio a'i storio gan y Cyngor mewn perthynas ag ECO4 Flex.

**Darparwyr / asiantau ECO4 Flex cymeradwy**

Nid yw Cyngor Sir Ceredigion yn cymeradwyo ansawdd crefftwaith darparwyr/asiantau/gosodwyr/contractwyr ECO4 a ddylai fod wedi'i gofrestru gyda Trustmark (Ymholiadau Cyffredinol Trustmark: 0333 555 1234). Fodd bynnag, mae Swyddog Effeithlonrwydd Ynni'r Cyngor yn rheoli fframwaith o ddarparwyr/asiantau ECO4 Flex cymeradwy, gan ganiatáu iddynt wneud atgyfeiriadau uniongyrchol i'r Cyngor ar gyfer gwiriadau cymhwyster a llofnodi datganiadau (lle bo hynny'n gymwys). Nid yw'r Cyngor yn derbyn atgyfeiriadau gan gynhyrchwyr arweiniol neu drydydd partïon.

Bydd darparwyr/asiantau ECO4 Flex a gymeradwywyd gan y Cyngor yn cael cyllid gan y cyflenwyr ynni sydd wedi ymrwymo gan ECO i gyflawni mesurau o dan y cynllun hwn. Wrth ddelio ag unigolion o'r sefydliadau hyn (gan gynnwys syrfewyr, cynhyrchwyr arweiniol, gosodwyr, ac ati sy'n gweithio ar ran darparwr/asiant cymeradwy), rhaid iddynt a) cario a dangos cerdyn adnabod â llun; b) esbonio'n glir pwy ydyn nhw, i bwy maen

nhw'n gweithio a diben eu hymweliad; c) rhoi manylion cyswllt eu cwmni i chi fel y gallwch gysylltu â nhw os oes angen; ch) esbonio bod y cynllun yn cael ei ariannu gan y cyflenwyr ynni ac nad ydynt yn gweithio i'r Cyngor nac ar ei ran; a d) rhoi eu Hysbysiad Preifatrwydd i chi yn egluro sut y byddant yn defnyddio, storio a rhannu eich data. Dylent hefyd roi rhestr o waith i chi (os bydd y gwaith yn mynd yn ei flaen), cyfarwyddiadau gweithredu, manylion am ofynion gwasanaeth sy'n berthnasol i'r mesurau a osodwyd a dogfennaeth sy'n amlinellu gwarant y gosodwr a'r gwneuthurwr.

Sylwch na chaniateir i'r darparwyr/asiantau ECO4 Flex cymeradwy ddefnyddio logo'r Cyngor i farchnata cynllun ECO4.

**Gwiriadau Diogelu ar gyfer Deiliaid Tai**

Nid yw ECO4 a GBIS yn gynlluniau sy'n seiliedig ar grantiau. Er nad oes disgwyl cyfraniadau defnyddwyr, efallai y gofynnir amdanynt mewn rhai achosion, a bydd gwahanol gontractwyr yn cynnig lefelau amrywiol o gyllid ar gyfer gwahanol gyfres o fesurau. Er mwyn dod o hyd i'r fargen orau, argymhellir bod defnyddwyr yn siarad â sawl cwmni i benderfynu ar y cwmni, y gost a'r mesurau sydd fwyaf addas iddynt. Bydd unrhyw drefniant ariannol neu gytundebol sy'n ymwneud â gosod mesur, arolwg cartref neu wasanaeth penodol yn ôl disgresiwn perchennog y tŷ neu'r meddiannydd i dderbyn neu wrthod fel y dewisant. Ni fydd y Cyngor yn barti i unrhyw drefniadau o'r fath; bydd hyn yn unig rhwng y deiliad tŷ ac unrhyw drydydd parti o'u dewis ar restr y Cyngor o ddarparwyr/asiantau ECO4 Flex cymeradwy. Nid oes rhaid i ddefnyddiwr gytuno, neu lofnodi contract ar gyfer unrhyw waith nad yw'n ei ystyried yn addas ar gyfer eu cartref.

Mae'r dogfennau perthnasol i'w darllen cyn cytuno i unrhyw waith yn cynnwys:

**• Siarter Defnyddwyr TrustMark** https://www.trustmark.org.uk/homeowner/documents. Mae'r ddogfen hon yn nodi hawliau a chyfrifoldebau unrhyw un sy'n derbyn cyngor, gosodiadau neu wasanaethau a gyflawnir gan Fusnes Cofrestredig TrustMark.

• **Canllaw i Ôl-osod eich cartref** https://www.trustmark.org.uk/homeowner/discover/retrofit-your-home Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r broses ôl-ffitio, yn ogystal â darparu awgrymiadau ynni, cyngor ar bennu'r gwaith cywir ar gyfer eiddo, gwybodaeth am wneud cwyn, a gwybodaeth am effeithlonrwydd ynni a thechnolegau carbon isel

**Cynhyrchwyr Arweiniol / Sefydliadau Trydydd Parti**

Gall cynhyrchwyr arweiniol / trydydd partïon fod yn gweithio mewn partneriaeth ag unrhyw un o ddarparwyr/asiantau ECO4/GBIS Flex cymeradwy y Cyngor i gynhyrchu ceisiadau ac atgyfeiriadau cartrefi. Nid yw'r sefydliadau hyn wedi'u cynnwys ar ein fframwaith cymeradwy, ac felly ni fyddwn yn derbyn ceisiadau yn uniongyrchol ganddynt. Efallai y byddant hefyd yn hysbysebu'r cynllun trwy eu sianeli marchnata (ee, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, postshots, ac ati). Os ydych chi'n ymgysylltu â sefydliad o'r fath i gwblhau cais, yna dylai'r sefydliad hwnnw roi gwybod i chi pa un o ddarparwyr/asiantau cymeradwy y Cyngor y mae'n eu cynrychioli. Byddwch yn ymwybodol y bydd y sefydliad hwnnw'n rhannu'ch cais (ac felly'n rhannu'ch gwybodaeth/manylion personol) gyda'r darparwr/asiant cymeradwy cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor ar gyfer gwiriadau cymhwysedd.

Ni chaniateir i gynhyrchwyr arweiniol / trydydd partïon ddefnyddio logo y Cyngor i farchnata'r cynllun ECO4.

**Rhwymedigaethau, anghydfodau a chwynion**

O dan ECO4 Flex, nid yw Awdurdodau Lleol yn atebol am unrhyw hawliadau y mae cwsmer yn eu gwneud os ydynt yn anfodlon â safon y gwaith; y gosodwr sy'n atebol am unrhyw waith a wneir. Felly nid yw Cyngor Sir Ceredigion yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd sy'n deillio o unrhyw ganlyniad negyddol, difrod neu golled oherwydd gwaith sy'n gysylltiedig ag ECO4 Flex a'r gosodwr/darparwr/asiant. Mae hyn yn cynnwys ymdrechion sy'n gysylltiedig â pharatoi'r cais neu'r arolwg cyn gwneud y gwaith gosod.

Os bydd anghydfod yn codi, ni fydd y Cyngor yn cymryd rhan mewn unrhyw ddatrysiad. Mae rhan y Cyngor yn ECO4 Flex wedi'i gyfyngu i'r datganiad o gymhwysedd aelwydydd i gael cyllid yn unig. Dylai unrhyw gŵyn neu fater sy'n codi yn erbyn gwaith, neu'r broses ymgeisio sy'n ymwneud ag ECO4 Flex, gael ei thrafod gyda'r gosodwr/darparwr/cyflenwr ynni ymrwymedig. Os oes angen i chi fod yn fodlon ar ansawdd y gosodiad rhaid i chi ddibynnu ar eich arbenigwr annibynnol eich hun.

Os bydd unrhyw waith yn mynd yn ei flaen o dan y cynllun, mae'r cytundeb rhwng y deiliad tŷ a'r gosodwr/darparwr/asiant dan sylw (nid gyda'r Cyngor). Y gosodwr sy'n gyfrifol am y gosodiadau (ar gyfer diffygion gosod o fewn cyfnod penodol) a'r gwneuthurwr (ar gyfer cynhyrchion diffygiol o fewn y cyfnod gwarant). Cyfrifoldeb y deiliad tŷ/perchennog ac nid y gosodwr/darparwr/asiant ECO yw cynnal amserlenni gwasanaeth. Os

oes gennych unrhyw gwestiynau am y gosodiad neu'r crefftwaith, cysylltwch â'r darparwr/gosodwr ECO4 Flex dan sylw.

Er mwyn rhoi sicrwydd i gwsmeriaid, mae'n rhaid i'r gwaith o osod y rhan fwyaf o fesurau effeithlonrwydd ynni o dan ECO4 Flex gael eu cyflawni gan fusnesau sydd wedi'u cofrestru â TrustMark, y mae'n ofynnol iddynt gadw at safonau annibynnol y Fanyleb sydd ar Gael yn Gyhoeddus (PAS). Mae gosodwyr hefyd wedi'i rwymo gan weithdrefnau trwy eu corff ardystio. Os nad yw gosodwr yn gwneud y gwaith yn iawn yn y lle cyntaf, neu'n methu ag unioni'r sefyllfa lle nad yw'n gwneud hynny, mae gweithdrefnau'n bodoli a ddilynir i amddiffyn y defnyddiwr. Gall cwsmeriaid gysylltu â TrustMark, a all ymchwilio i weld a yw cwmni'n cadw at Siarter Cwsmeriaid Trustmark a rhoi cyngor ar y camau nesaf posibl. At hynny, mae gan TrustMark broses datrys anghydfod hefyd os yw cwsmer yn dymuno gwneud cwyn yn erbyn gosodwr cofrestredig. Gellir cael rhagor o wybodaeth trwy fynd i https://www.trustmark.org.uk/scheme-provider/discover/our-dispute-resolution-process. Gallwch hefyd gysylltu â Trustmark ar y rhif ffôn 0333 555 1234, neu drwy ysgrifennu at Trustmark (2005) Limited, Arena Business Centre, The Square, Basing View, Basingstoke, RG21 4EB.

Mae'r Cynllun Ardystio Microgynhyrchu (MCS) yn ardystio, yn sicrhau ansawdd ac yn darparu amddiffyniad i ddefnyddwyr ar gyfer gosodiadau a gosodwyr microgynhyrchu. Mae'r rhain yn cynnwys technolegau trydan adnewyddadwy ar raddfa fach fel paneli solar ffotofoltäig, biomas, gwynt, pympiau gwres a chynhyrchion gwres. Os oes gennych gŵyn am dechnoleg o’r fath sydd wedi’i gosod yn eich cartref gan osodwr MCS ardystiedig, cysylltwch â MCS dros y ffôn ar 0333 103 8130, drwy e-bost hello@mcscertified.com, drwy ymweld â https://mcscertified.com/about-us/contact-us/ neu yn ysgrifenedig at MCS, First Floor, Violet 3, Sci-Tech Daresbury, Keckwick Lane, Daresbury, Cheshire, WA4 4AB. Mae gan MCS hefyd dudalen we sy’n canolbwyntio ar beth i’w wneud os aiff pethau o chwith, ‘What to do if things go wrong’: https://mcscertified.com/complaints-compliance/. Gallai cwyn gynnwys y canlynol: system ddiffygiol neu gydrannau unigol; problemau gyda safon y crefftwaith; materion trydanol neu ddiogelwch; materion yn ymwneud â dyluniad, maint neu berfformiad y system; diffyg cydymffurfio â safonau gosod perthnasol; pecyn trosglwyddo anghyflawn; tystysgrif MCS ar goll neu'n anghywir.

Mae gan Ofgem dudalen we hefyd sy'n amlinellu'r camau a allai eich helpu i ddatrys cwynion am fesur effeithlonrwydd ynni a osodwyd o dan ECO4 Flex yn eich cartref. Ewch i https://www.ofgem.gov.uk/eco4-complaints-process i ddarllen mwy am y broses.

Os ydych yn pryderu am ymddygiad y syrfëwr neu eich hawliau fel defnyddiwr, ffoniwch linell gymorth Gwasanaeth Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth: 0808 223 1133 i gael cynghorydd sy'n siarad Saesneg neu 0808 223 1144 am gynghorydd sy'n siarad Cymraeg.

## Hysbysiad Preifatrwydd

Er mwyn i aelwyd wneud cais am gyllid posibl o dan ECO4 Flex, bydd angen i'r darparwr/asiant ECO4 Flex cymeradwy a'r Cyngor gasglu data personol. Bydd y Cyngor angen y wybodaeth ganlynol am yr aelwyd/ymgeisydd gan y darparwr/asiant ECO: enw cleient, dyddiad geni, cyfeiriad, tystiolaeth ategol a llwybr atgyfeirio (gall hyn gynnwys gwybodaeth ariannol a data categori arbennig megis gwybodaeth am rai cyflyrau iechyd). Mae enghreifftiau o'r wybodaeth sydd ei hangen i'w gweld yn ffurflen gais ECO4 Flex a fydd ar gael gan y darparwr rydych yn gwneud cais drwyddo. Bydd gwybodaeth am nifer y datganiadau a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn cael ei chofnodi trwy ddefnyddio Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN).

Pan fydd datganiad wedi'i roi i'r darparwr cymeradwy, bydd y Cyngor yn anfon gwybodaeth y datganiad (cyfeiriad a llwybr cyfeirio) at Ofgem, gweinyddwr ECO4. Gall ceisiadau a datganiadau fod yn destun archwiliadau Ofgem yn ystod yr amser y mae ECO4 mewn grym a hyd at dair blynedd ar ôl i'r cynllun ddod i ben. Yn ystod yr archwiliadau hyn efallai y bydd Ofgem yn gofyn i'r Cyngor rannu'r ffurflenni cais a'r dystiolaeth ategol â nhw.

Bydd y Cyngor yn trin yr holl ddata personol a brosesir ar gyfer ECO4 Flex yn unol â gofynion yr holl ddeddfwriaeth diogelu data a phreifatrwydd berthnasol sydd mewn grym o bryd i'w gilydd yn y DU gan gynnwys GDPR y DU, Deddf Diogelu Data 2018 (a rheoliadau a wneir o dan hynny) a Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003 (OS 2003/2426) fel y'u diwygiwyd. Cyfeiriwch at Hysbysiad Preifatrwydd ECO4/GBIS Flex y Cyngor sy'n esbonio sut mae data personol yn cael ei ddefnyddio a'i storio gan y Cyngor mewn perthynas ag ECO4 Flex. Gellir gweld Hysbysiad Preifatrwydd cyffredinol y Cyngor ar ein tudalen Hysbysiad Preifatrwydd - Cyngor Sir Ceredigion